# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 23 a 30 Hydref 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

9 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

11 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol


## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cynlluniau ar gyfer Cyllid Ewropeaidd

**Alun Cairns:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cynlluniau ar gyfer cyllid Ewropeaidd ar ôl 2006? (WAQ29156)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae cynigion Llywodraeth y DU o ran polisi rhanbarthol yr UE ar ôl 2006 a pholisi'r gyfarwyddiaeth gyffredinol dros bolisi rhanbarthol o barhau â chronfeydd strwythurol sy'n cwmpasu'r UE gyfan yn gwbl hysbys. Byddwn mewn gwell sefyllfa i benderfynu pa un o'r opsiynau hyn sydd orau i Gymru wrth i Lywodraeth y DU ddatblygu ei chynigion ac i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi ei gynigion ffurfiol yn ddiweddarach eleni.

### Gweision Sifil

**Jonathan Morgan:** Beth oedd a) cyfanswm cost cyflogau, a b) cyfanswm cost yr holl weision sifil oedd yn gweithio yn adrannau pob Gweinidog yn unigol, gan gynnwys y Prif Weinidog, yn 1999, a beth yw cyfanswm y gost ar gyfer pob adran yn unigol ar hyn o bryd? (WAQ29157)

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu'r wybodaeth ganlynol am ei adran ei hun ac adrannau pob un o'i Weinidogion: i) nifer yr aelodau staff llawn amser a rhan-amser yn 1999 a ii) nifer yr aelodau staff llawn amser a rhan-amser ar hyn o bryd? (WAQ29158)

**Y Prif Weinidog:** Gan fod strwythur a chyfansoddiad mewnol portffolios a swyddogaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi newid yn sylfaenol er 1999, nid yw'n bosibl rhoi dadansoddiad ystyrlon o gostau staff ar gyfer portffolio pob Gweinidog.

### Ymweliad ag Awstralia (Staff a'r Swyddogion)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog roi rhestr o'r staff a'r swyddogion a fydd yn mynd gydag ef ar ei ymweliad ag Awstralia y mis hwn? (WAQ29351)

**Y Prif Weinidog:** Bydd ysgrifennydd preifat a swyddog y wasg yn dod gyda mi.

### Ymweliad ag Awstralia (Cyfarfodydd ac Apwyntiadau)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog roi rhestr o'r cyfarfodydd a'r apwyntiadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer ei ymweliad ag Awstralia y mis hwn? (WAQ29352)

**Y Prif Weinidog:** Mae copi o ddrafft diweddaraf fy rhaglen wedi cael ei roi yn y Llyfrgell ac wedi'i gyhoeddi fel gwybodaeth ychwanegol at WAQ28977.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Gardd Fotaneg Genedlaethol, Middleton

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ar y camau a gymerwyd i sicrhau dyfodol hirdymor i Ardd Fotaneg Genedlaethol Middleton yn Llanarthne? (WAQ29141)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal i weithio'n agos gydag ymddiriedolwyr Middleton a'n partneriaid yn y sector cyhoeddus. Sefydlwyd grŵp sector cyhoeddus i dywys y gwaith o ganfod dyfodol cynaliadwy tymor hir yn Middleton yn ei flaen. Ynghyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, caiff Cyngor Sir Caerfyrddin, Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru eu cynrychioli ar y grŵp hwnnw. Mae swyddogion o Middleton hefyd yn mynychu cyfarfodydd y grŵp ac yr ydym yn dal mewn cysylltiad agos â Chomisiwn y Mileniwm.

Yr wyf yn falch o ddweud bod y grŵp wedi cael nifer o gyfarfodydd buddiol yn barod. Gallaf gadarnhau bod rhywrai o'r sector preifat wedi mynegi diddordeb posibl mewn ymwneud â'r prosiect. Byddwn yn mynd ar drywydd pob diddordeb o'r fath ac yn gweithio'n ddiflino dros yr wythnosau nesaf i sicrhau bod Middleton yn parhau'n weithredol.

### Amgueddfa Pêl-droed Cymru

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynlluniau sydd ar y gweill i ddatblygu amgueddfa pêl-droed Cymru? (WAQ29154)

**Alun Cairns:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch sefydlu amgueddfa pêl-droed Cymru? (WAQ29155)

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi derbyn sylwadau penodol ynglŷn â sefydlu amgueddfa bêl-droed i Gymru. Nid wyf ychwaith yn ymwybodol fod gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru nac unrhyw gorff arall ddiddordeb mewn datblygu cyfleuster o'r fath, ond byddwn yn amlwg yn barod iawn i wrando ar unrhyw gynlluniau a allai fod ganddynt.

Fel un o fentrau 'Cymru Greadigol: Creative Future', sefydlwyd gweithgor i adolygu dichonoldeb sefydlu amgueddfa chwaraeon i Gymru. Cafodd y gwaith hwn ei wneud ar y cyd ag Oriel Anfarwolion

Chwaraeon Cymru, a fu'n rhan o Amgueddfa Werin Cymru ers nifer o flynyddoedd. Yn ddiweddar cyfarfûm â chynrychiolwyr Oriel Anfarwolion Chwaraeon Cymru ac yr wyf yn ystyried sut y gellid datblygu hynny. Yn naturiol, byddai'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ddarparu arian o du'r Cynulliad ar gyfer cynllun o'r fath gael ei wneud yng ngoleuni'r blaenoriaethau eraill o fewn fy mhortffolio.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Cynlluniau Cymorth Busnes (Rhestr)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gynlluniau cymorth busnes sy'n cael eu rhedeg gan y Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru? (WAQ29120)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae'r cynlluniau sy'n cael eu rhedeg gan Lywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd i gynorthwyo busnesau fel a ganlyn:

- cymorth rhanbarthol dewisol;
- grant buddsoddi'r Cynulliad;
- y cynllun datblygu marchnata (amaethyddiaeth);
- Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru (a gyflenwir drwy Ganolfan Ansawdd Cymru);
- Dylunio Cymru (a gyflenwir ar ran Llywodraeth y Cynulliad drwy Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd); a
- CymorthAllforio

Yn ogystal, mae'r rhaglenni a'r gwasanaethau cymorth busnes sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod Datblygu wedi'u rhestru yn y grwpiau isod:

**1. CYMORTH I FUSNESAU NEWYDD**
***Hwyluso a chynorthwyo sefydlu busnesau newydd***
- rhaglen ddeillio Cyllid Cymru
- Graddedigion yn Mentro
- rhaglen cychwyn busnesau newydd
- y fenter Masnachwyr Unigol

**2. CYNGOR CYFFREDINOL**
***Cyngor datblygu busnes cyffredinol i fusnesau newydd a rhai sefydledig***
- gwasanaeth cynghori busnesau cyffredinol
- cytundebau seiliedig-ar-berfformiad Corus

**3. CYMORTH ARIANNOL**
***Arian grant yn ôl disgresiwn i helpu'r busnesau sy'n ymgeisio (o dan amgylchiadau penodedig) i ddatblygu/cadw eu helfen gystadleuol***
- grantiau datblygu bwyd-amaeth
- grant cymorth menter
- nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol
- rhwydwaith angylion busnes Cyllid Cymru
- ecwiti Cyllid Cymru
- benthyciadau Cyllid Cymru
- mezzanine Cyllid Cymru
- mynediad i gyfalaf Cyllid Cymru
- grantiau prosesu a marchnata (bwyd-amaeth)
- menter siopau gwledig
- menter trefi a phentrefi bach—grant

- SMART Cymru
- rhaglen ecsbloetio technoleg
- credydau arloesi (a rhwydwaith arloesi Cymru)
- grantiau datblygu eiddo a grantiau gwella eiddo busnes

**4. YMGYNGHORIAETH**

***Ymgynghoriaeth gyffredinol ac arbenigol a/neu fentora***

- ymgynghoriaeth amaeth-busnes
- Ffynhonnell Cymru
- ymgynghoriaeth arbenigol

**5. CYNGOR ARBENIGOL**

***Cyngor (yn hytrach nag ymgynghoriaeth) lle mae angen gwybodaeth arbenigol mewn unrhyw faes***

- rhaglen hwyluso ynni
- $ECM^2$ – y Ganolfan Peirianneg Cynhyrchu a Deunyddiau
- Cyswllt Ffermio
- cynghorwyr arloesi a thechnoleg
- dulliau adnewyddadwy—Cymru gyfan
- prosiect cydraddoldeb busnesau bach a chanolig eu maint
- rhaglen cymorth buddsoddi Cyllid Cymru
- Menter Gymunedol—gwasanaethau cymorth busnes

**6. HELP GYDAG ARLOESI AC YMCHWIL A DATBLYGU**

***Darparu cyngor a chymorth arloesi a thechnoleg***

- canolfannau rhagoriaeth mewn technoleg a chydweithredu diwydiannol
- Know How Cymru
- canolfan masnacheiddio technoleg
- Canolfan *relay* arloesi Cymru
- technolegau cynaliadwy
- rhaglen Technolegau'r Dyfodol
- rhaglen Foresight
- Ymrwymiad i Arloesedd

**7. CYMORTH TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU**

***Cymorth TGCh/e-fusnes***

- rhaglen TGCh adfywio Corus
- canolfannau cymorth TGCh
- ôl-gerbyd arddangos teithiol cymdeithas wybodaeth Cymru
- cynllun cymhorthdal band eang lloeren i fusnesau bach a chanolig eu maint
- rhaglen SMe fusnes Cymru

**8. HELP I FASNACHU A CHANFOD FFYNONELLAU**

***Cymorth rhyng-fasnachu a chanfod ffynonellau***

- prosiect datblygu cyflenwyr lleol
- Ffynhonnell Cymru—canfod ffynonellau

**9. CYFLEUSTERAU MEITHRIN GYDA NEU HEB GYMORTH CYNGHORI/ARALL**

***Cyfuniad o ddarpariaeth refeniw a chyfalaf, generig ac arbenigol***

- menter cyfryngau digidol @Wales
- canolfannau meithrin ac arloesi
- Technium—darpariaethau amrywiol

**DARPARIAETHAU ANNIBYNNOL**

- rheoli cyfrifon—yr Awdurdod Datblygu
- gwasanaeth Llygad Busnes
- rhaglen fentora Cyllid Cymru

### Cynlluniau Cymorth Busnes

**Alun Cairns:** Sawl cynllun cymorth busnes y mae'r Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru yn eu rhedeg? (WAQ29121)

**Andrew Davies:** Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhedeg chwe chynllun sydd â'r bwriad o gynorthwyo busnesau. Yn ogystal, mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi gosod y cynnyrch a'r gwasanaethau cymorth y mae yn eu darparu mewn naw categori sydd, gyda'i gilydd, yn cynnwys 51 o elfennau unigol. Mae'r rhestr lawn wedi ei chynnwys yn yr ateb i WAQ29120 uchod.

### Swyddi a Gollwyd (Canolfannau Galwadau a'r Sector Gwasanaeth)

**Nick Bourne:** Ym mha ffordd y mae'r Gweinidog wedi asesu'r swyddi a gollwyd mewn canolfannau galwadau yng Nghymru lle mae swyddi'n cael eu 'hallforio' dramor? (WAQ29146)

**Nick Bourne:** Ym mha ffordd y mae'r Gweinidog wedi asesu'r swyddi a gollwyd yn y sector gwasanaeth lle mae swyddi'n cael eu 'hallforio' dramor? (WAQ29147)

**Andrew Davies:** Fy asesiad yw inni gael cryn lwyddiant yn y sector gwasanaeth a sector y canolfannau galwadau dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r sector canolfannau galwadau yn cyflogi rhyw 24,000 o bobl yng Nghymru erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r newyddion yn ddiweddar am swyddi'n cael eu colli i leoliadau tramor yn tanlinellu unwaith eto y gystadleuaeth fyd-eang yr ydym yn ei hwynebu yn arbennig yn nhermau swyddi sydd â gwerth ychwanegol is. Mae Tîm Cymru yn gweithio gyda busnesau i'w helpu i wahaniaethu eu hunain yn barhaus oddi wrth eu cystadleuwyr byd-eang. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo modelau busnes arfer gorau ac mae wedi cyflwyno polisïau â'r bwriad o gynyddu menter a symud busnesau i fyny'r gadwyn werth.

### Ynni a Fewnforiwyd o Wledydd Tramor

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o ynni a fewnforiwyd i Gymru yn ystod y blynyddoedd 2002 a 2003 o wledydd tramor (gan roi manylion am y mathau o ynni a fewnforiwyd, a faint)? (WAQ29226)

**Andrew Davies:** Mae'r grid trydan yng Nghymru wedi ei gyfuno â'r grid i Loegr. Mae grid Cymru a Lloegr ynghlwm wrth gridiau'r Alban a Ffrainc a, thrwy'r Alban, â Gogledd Iwerddon a grid Gweriniaeth Iwerddon. Drwy edrych ar faint o drydan a gynhyrchwyd yn 2002 gan orsafoedd trydan Cymru, ac amcangyfrif y defnydd yng Nghymru drwy gyfrif y trydan a ddosbarthwyd yn rhanbarth de Cymru a hanner y trydan a ddosbarthwyd yn rhanbarth Glannau Mersi a gogledd Cymru, mae'n amlwg, er bod trydan yn cael ei fewnforio i dde Cymru, fod Cymru yn allforiwr trydan net. Er nad oes data am y trydan sy'n cael ei fewnforio i dde Cymru, drwy'r grid cenedlaethol o Loegr (nid oes cysylltiadau trawsyrru rhwng gogledd a de Cymru) ar gael ar hyn o bryd, gellir amcangyfrif yn ddiogel bod swmp net y trydan a gafodd ei fewnforio i Gymru, drwyddi draw, yn 2002, yn 0. Nid yw blwyddyn 2003 wedi dod i ben eto, felly nid oes data y gellir ei gymharu.

Mae'r rhwydwaith nwy yng Nghymru hefyd wedi ei gyfuno â rhwydwaith Lloegr. Gan nad oes nwy yn cael ei gyflenwi i'r rhwydwaith o ffynonellau brodorol, mae'r holl nwy a ddefnyddir yng Nghymru yn cael ei fewnforio, yn bennaf o fôr y Gogledd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cyfle Cyfartal

**Val Lloyd :** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr ymchwil ddiweddar gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn nodi bod menywod yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn dlotach na dynion (Western Mail 17.09.03) ac a wnaiff hi amlinellu unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r tueddiad hwn? (WAQ28390) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.***

*Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro a roddwyd ar 3 Hydref 2003.*

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Cyn hyn, fel y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gyfle cyfartal, sicrheais fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn archwilio ei drefniadau o ran cyflogau ac yn sgîl hynny gwnaeth newidiadau sylweddol i'r trefniadau hyn i leihau anghydraddoldebau posibl o ran cyflogau dynion a menywod sy'n gweithio i'r Cynulliad. Cefnogodd y Cabinet y penderfyniad hwn yn llawn drwy ganiatáu'r cynnydd sylweddol mewn cyllid a oedd yn ofynnol i'w weithredu. Yr wyf wrthi ar hyn o bryd yn ystyried ar ba feysydd y bydd ail flwyddyn yr ymgyrch cyflogau cyfartal yn canolbwyntio.

### Effaith Ffioedd Dysgu Ychwanegol

**Nick Bourne:** Ym mha ffordd y mae'r Gweinidog wedi asesu'r effaith y bydd ffioedd dysgu ychwanegol yn ei chael ar brifysgolion yng Nghymru? (WAQ29144)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw na chaiff ffioedd newidiol eu cyflwyno yn ystod oes yr ail Gynulliad. Yr wyf wedi ei gwneud yn glir na fydd sefydliadau addysg uwch Cymru yn wynebu anfantais am nad ydynt yn cael codi ffioedd newidiol ym mlwyddyn academaidd 2006-07. Yr wyf wedi rhoi ymrwymiad i sefydliadau addysg uwch Cymru y bydd ffrwd ychwanegol o gyllid ar gael ar gyfer carfan myfyrwyr blwyddyn academaidd 2006-07.

Nid yw'n bosibl dweud ar hyn o bryd faint o gyllid ychwanegol y bydd ei angen. Cyhyd â bo'r darpariaethau deddfwriaethol angenrheidiol wedi cael eu sefydlu, bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar sut y bydd y farchnad addysg uwch yn Lloegr yn ymddwyn ar ôl cael y rhyddid i godi ffioedd newidiol.

### Effaith Ffioedd Dysgu Ychwanegol ar Nifer y Ceisiadau i Brifysgolion

**Nick Bourne:** Ym mha ffordd y mae'r Gweinidog wedi asesu'r effaith y bydd ffioedd dysgu ychwanegol yn ei chael ar nifer y ceisiadau o Gymru i brifysgolion ar draws y Deyrnas Unedig? (WAQ29145)

**Jane Davidson:** Ni fydd yr effaith a gaiff y ffioedd uwch ym mhrifysgolion Lloegr ar y sefydliadau (neu o bosibl y cyrsiau) y bydd myfyrwyr yn eu dewis yn amlwg am beth amser. Caiff y mater ei ystyried gan ail gam adolygiad Rees, yr wyf wedi ei gyhoeddi eisoes.

### Rathbone Training

**Leighton Andrews:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ar y cymorth gan ELWa i Rathbone Training? (WAQ29148)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi derbyn nifer o sylwadau gan Aelodau Cynulliad a chan hyfforddeion yr effeithiwyd arnynt gan benderfyniad Rathbone Training i ad-drefnu ei weithgareddau dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru. Yr wyf hefyd wedi cwrdd ag uwch gynrychiolwyr o Rathbone, gan gynnwys y prif weithredwr. Yn ogystal, yr wyf wedi cael trafodaethau gyda phrif weithredwr dros dro y Cyngor Cenedlaethol—ELWa.

Fel yr amlinellais yn fy natganiad ysgrifenedig i'r Aelodau ar 22 Hydref, yr wyf yn falch bod y cyngor wedi symud yn gyflym i sefydlu tîm prosiect brys i reoli'r goblygiadau os na fydd Rathbone yn ailystyried ei sefyllfa. Blaenoriaethau'r cyngor fydd diogelu sefyllfa'r hyfforddeion y gallai hyn effeithio arnynt, yn ogystal â chynorthwyo gweithwyr Rathbone sy'n wynebu'r posibilrwydd o golli eu swyddi drwy gynnig cymorth o ran hyfforddiant a chyflogaeth.

### Amserlennu Chwaraeon ac Addysg Gorfforol

**Leighton Andrews:** Faint o amser y mae disgwyl i ysgolion cynradd ei neilltuo bob wythnos ar gyfer chwaraeon/addysg gorfforol? (WAQ29149)

**Jane Davidson:** Mae addysg gorfforol yn rhan annatod o'r cwricwlwm cenedlaethol i bob person ifanc ym mhob un o'r pedwar cyfnod allweddol. Wrth gyflawni gofynion y rhaglenni astudio ar gyfer addysg gorfforol, mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, dan do ac yn yr awyr agored, fel y gallant ddatblygu eu sgiliau mewn sefyllfaoedd sy'n briodol i'w gallu.

Nid oes pwerau statudol i ragnodi amser penodedig ar gyfer cyflwyno unrhyw bwnc yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru. Yn gwbl briodol, mater i ysgolion yw penderfynu ar hynny, ac mae safon ac ansawdd y ddarpariaeth yn cael eu harolygu gan Estyn. Yn y cyd-destun hwn, braf oedd nodi bod adroddiad blynyddol diweddaraf y prif arolygydd yn cadarnhau bod y safonau a gyrhaeddir gan ddisgyblion mewn addysg gorfforol yn foddhaol neu'n well, ym mhob cyfnod allweddol, mewn 97 y cant o'r dosbarthiadau yr arsylwyd arnynt.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod addysg gorfforol a chwaraeon ysgol yn chwarae rhan bwysig wrth helpu pobl ifanc i wella eu sgiliau corfforol, cynyddu eu hunanhyder a'u hunan-barch a datblygu agwedd gadarnhaol tuag at weithio gydag eraill, a dyna pam yr wyf wedi gofyn i Gyngor Chwaraeon Cymru arwain y broses o roi argymhellion allweddol y cynllun gweithredu addysg gorfforol a chwaraeon ysgol i Gymru ar waith.

Fel rhan o'r gwaith hwn, caiff ysgolion eu hannog i weithio tuag at ddarparu dwy awr o amser cwricwlwm ar gyfer addysg gorfforol i bob disgybl bob wythnos. Mae'r gwaith yn cael ei dywys yn ei flaen, yn bennaf, drwy sefydlu canolfannau datblygu AG a chwaraeon ysgol yn ardal pob awdurdod lleol. Mae'r canolfannau datblygu chwaraeon ysgol yn dod ag ysgolion a phartneriaid lleol ynghyd gan roi'r pwyslais ar rannu arbenigedd staff a chyfleusterau a datblygu arferion da.

Mae adroddiadau cychwynnol Estyn yn cadarnhau bod yr ysgolion sy'n ymwneud â'r canolfannau datblygu yn gwneud cynnydd da iawn o ran datblygu amrywiaeth ac ansawdd addysg gorfforol a chwaraeon ysgol, gan gynnwys darparu dwy awr o amser cwricwlwm. Yn ogystal, cafodd cydlynwyr eu penodi gan yr awdurdodau lleol i sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu lledaenu i ysgolion eraill a bod y gwaith yn ategu'r cymorth ar gyfer mentrau y tu allan i oriau ysgol megis Campau'r Ddraig. Er nad yw'r fenter hon ond megis cychwyn, mae hyn yn newyddion da ac yr wyf wedi gofyn i Estyn barhau i fonitro cynnydd ac adrodd am ei hynt.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Ailblannu Ystâd Goedwigaeth y Cynulliad

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl rywogaethau gwahanol a blannwyd wrth ailblannu ystâd goedwigaeth y Cynulliad yn ystod y tymor plannu: Gorffennaf 2002 hyd at Fehefin 2003, a nodi pa ganran o'r cyfanswm hwnnw y mae pob rhywogaeth yn ei chynrychioli? (WAQ29090) [W]

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Nid yw'n hawdd rhoi ateb, gan fod y broses o ailstocio coetiroedd y Cynulliad yn digwydd mewn llawer o wahanol ffyrdd, gan

gynnwys ailblannu, adfywio naturiol (lle caiff hadau ar y safle dyfu'n gnwd o goed newydd) ac adfywio a gynorthwyir, lle caiff hadau eu lledaenu'n fwriadol ar y safle ailstocio er mwyn cyflymu'r broses naturiol. Dylid nodi bod yr ardal lle cynorthwyir adfywio trwy ddefnyddio hadau brodorol wedi cynyddu'n sylweddol y tymor diwethaf.

**Tymor Plannu Gorffennaf 2002—Mehefin 2003**

Gan ddefnyddio'r ffigurau ar gyfer planhigion a gyflenwyd i'w hailblannu, dyma'r rhywogaethau a blannwyd:

| Rhywogaeth | Canran |
|---|---|
| Pinwydden yr Alban | 0.84 |
| Pinwydden Corsica | 1.48 |
| Pyrwydd sitca | 64.34 |
| Pyrwydd Norwy | 9.60 |
| Llarwydden Siapan | 4.60 |
| Llarwydden groesryw | 9.67 |
| Ffynidwydden Douglas | 4.38 |
| Ffynidwydden lwydlas | 0.97 |
| Derwen ddail digoes | 1.92 |
| Ffawydden | 0.10 |
| Onnen | 0.67 |
| Bedwen | 0.47 |
| Castanwydden | 0.18 |
| Gwernen | 0.22 |
| Ceiriosydden wyllt | 0.52 |
| Coed dail llydan eraill | 0.06 |

Bydd y defnydd o dechnegau i ledaenu hadau'n fwriadol yn cynyddu o leiaf 100 y cant yn y tymor plannu nesaf, gan wneud yr ystadegau ar gyfer coed a blennir yn llai ystyrlon.

## Costau Rhedeg yr Arsyllfa Wledig

**Glyn Davies:** Beth yw'r costau a amcangyfrifir o redeg yr arsyllfa wledig mewn blwyddyn ariannol lawn? (WAQ29126)

*Ateb diwygiedig a gyhoeddwyd ar 28 Hydref 2003.*

**Carwyn Jones:** Yn unol â gweithdrefnau tendro llawn yr Undeb Ewropeaidd, cafodd y contract am yr arsyllfa wledig ei sefydlu ym mis Medi ac mae'r rhaglen waith yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Cafwyd rhai costau ond nid oes anfonebau wedi cael eu cyflwyno hyd yma. Bydd y gwariant eleni yn dibynnu ar y rhaglen waith. Yr ydym yn rhagweld y caiff y ddarpariaeth yn y gyllideb ei gwario'n llwyr mewn blwyddyn ariannol lawn.

## Goblygiadau Diogelwch Mastiau Tetra

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gynnal adolygiad o oblygiadau diogelwch mastiau Tetra yng Nghymru? (WAQ29143)

**Carwyn Jones:** Cyflwynasom ddeddfwriaeth ym mis Awst 2002 yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno datganiad gyda cheisiadau cymeradwyaeth ymlaen llaw a cheisiadau cynllunio yn ymwneud â chyfarpar telegyfathrebu yn dweud y byddir yn cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelwch Ymbelydredd nad yw'n ïoneiddio wrth weithredu'r cyfarpar. Mae'r Llywodraeth ganolog yn dal i wneud ymchwil yn y maes hwn, a bydd hwnnw yn dylanwadu ar unrhyw ystyriaeth bellach a roddir i ddatblygu polisi yn y maes hwn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn? (WAQ28571)

*Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro a roddwyd ar 8 Hydref 2003.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** £89 miliwn yw swm dros dro yr hawl hyblygrwydd diwedd blwyddyn sy'n deillio o 2002-03. Mae hwn, ynghyd â'r hyblygrwydd diwedd blwyddyn sy'n weddill o flynyddoedd cynt, yn rhoi cyfanswm o £164.4 miliwn i'r Cynulliad.

### Grantiau Dysgu'r Cynulliad

**Peter Black:** Pa hyblygrwydd diwedd blwyddyn sydd ar gael i'r Gweinidog o ganlyniad i'r ffaith na fanteisiwyd yn llawn ar grantiau dysgu'r Cynulliad? (WAQ28572)

*Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro a roddwyd ar 8 Hydref 2003.*

**Sue Essex:** £16.387 miliwn oedd y gyllideb derfynol yn 2002-03 ar gyfer grantiau dysgu'r Cynulliad ac yr oedd y gwariant diwedd blwyddyn yn £16.344 miliwn. Mae'r ddarpariaeth o £0.043 miliwn a oedd heb ei gwario yn rhan o hyblygrwydd diwedd blwyddyn y Cynulliad sy'n deillio o 2002-03.

### Dyfarndaliad am Wasanaeth

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pam na theimlwyd y byddai'n briodol gwahardd cynghorwyr sy'n ymddeol ac yn derbyn dyfarndaliad am wasanaeth rhag sefyll eto yn etholiadau'r cynghorau wedi hynny? (WAQ29136)

**Sue Essex:** Am resymau cyfreithiol, nid oedd yn bosibl, yn y rheoliadau a gyflwynodd y dyfarndaliadau am wasanaeth, cynnwys darpariaeth i atal unigolyn sy'n derbyn dyfarndaliad rhag sefyll mewn etholiad yn y dyfodol.

### Dyfarndaliad am Wasanaeth (Cost Gweithredu'r Cynllun)

**Nick Bourne:** Beth fyddai'r gost o weithredu'r cynllun dyfarndaliad am wasanaeth i gynghorwyr yng Nghymru pe bai pob cynghorydd cymwys yn derbyn yr hawl hon wrth ymddeol? (WAQ29137)

**Sue Essex:** Mater i'r cynghorau unigol yw penderfynu pa un i weithredu'r cynllun a phwy sy'n gymwys. Bydd cost wirioneddol y dyfarndaliadau yn hysbys ar ôl i'r enwebiadau ar gyfer yr etholiadau lleol gau.

### Cost y Cynllun Dyfarndaliadau am Wasanaeth

**Nick Bourne:** Beth fydd yn digwydd os bydd y cyfrifiadau mewn perthynas â chost y cynllun dyfarndaliadau am wasanaeth yng Nghymru yn fwy costus na'r arian a neilltuwyd ar gyfer y cynllun? (WAQ29138)

**Sue Essex:** Nid oes modd i'r ffigurau yn y gyllideb fod yn ddim mwy nag amcangyfrifon o'r costau a fydd yn deillio o dalu dyfarndaliadau am wasanaeth.

### Dyfarndaliadau am Wasanaeth i Gynghorwyr sy'n Ymddeol

**Nick Bourne:** Pa ymgynghori a fu gyda phobl ledled Cymru o ran talu dyfarndaliadau am wasanaeth i gynghorwyr sy'n ymddeol? (WAQ29139)

**Sue Essex:** Bu proses hir o drafod ac ymgynghori ynglŷn â chyflwyno dyfarndaliadau am wasanaeth. Awgrymwyd y cynllun yn adroddiad Prifysgol Birmingham yn 2001, 'Recognising Councillors' worth to their Communities', a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cafodd y bwriad polisi i gyflwyno dyfarndaliadau am wasanaeth i gynghorwyr sy'n ymddeol ei gynnwys yn y datganiad polisi, 'Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002 ac a ddosbarthwyd yn eang, gyda gwahoddiad i ymateb i'r ymgynghori. Bu'r rheoliadau drafft yn destun ymgynghori wedyn yr haf diwethaf. Ymysg y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ynglŷn â'r rheoliadau yr oedd yr awdurdodau lleol, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol dros etholaethau yng Nghymru yn ogystal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chomisiwn Archwilio Cymru.

Mae Pwyllgor Pwnc llywodraeth leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf fel yr oedd y polisi yn datblygu. Er enghraifft, trafodwyd y syniad o gyflwyno cynllun diswyddo, fel yr oedd yn cael ei alw ar y pryd, gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai fel yr oedd ar y pryd ym mis Gorffennaf 2001, fel rhan o ystyried yr argymhellion yn adroddiad Declan Hall.

### Cost Talu Dyfarndaliadau am Wasanaeth i Gynghorwyr sy'n Ymddeol

**Nick Bourne:** Ar ba sail y cynhaliwyd cyfrifiadau ar gost talu dyfarndaliadau am wasanaeth i gynghorwyr sy'n ymddeol yng Nghymru? (WAQ29140)

**Sue Essex:** Lluniwyd amcangyfrifon i'r diben o baratoi'r gyllideb gyda chymorth swyddogion llywodraeth leol.

### Fframwaith Moesegol ar gyfer Llywodraeth Leol

**Mark Isherwood:** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar y fframwaith moesegol ar gyfer llywodraeth leol? (WAQ29395)

**Sue Essex:** Mae canllawiau drafft ar gael yn barod. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ddogfen honno deuthum i'r casgliad nad oes angen newid y canllawiau ond y dylid adolygu rhag agweddau o'r cod ymddygiad. Byddir yn dechrau gweithio ar yr adolygiad hwn ym mis Tachwedd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cymhorthion Cyfathrebu ar gyfer Cleifion sydd wedi cael strôc

**David Melding:** Pa gymhorthion electronig sydd ar gael i gleifion sydd wedi cael strôc ac sydd â nam ar eu lleferydd neu sydd heb leferydd o gwbl, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyn? (WAQ28801)

*Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro a roddwyd ar 24 Hydref 2003.*

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn gallu rhoi cymorth y mae mawr ei angen i gleifion sydd â nam ar eu lleferydd neu sydd heb leferydd o gwbl. Caiff cleifion strôc eu cyfeirio i ganolfannau cymorth cyfathrebu arbenigol, lle caiff anghenion y cleifion eu hasesu a lle rhoddir cyngor iddynt am y cymhorthion cyfathrebu uwch-dechnoleg neu isel-dechnoleg mwyaf addas sydd ar gael. Mewn rhai achosion strôc, nid yw defnyddio cymhorthion o'r fath yn briodol bob amser.

Mae'r polisi o ran manteisio ar y cymhorthion hyn yn amrywio ar draws Cymru. Yn gyffredinol, gellir rhoi cyfarpar ar fenthyg i gleifion o fanc cyfarpar therapi iaith a lleferydd. Fodd bynnag, mae cleifion unigol hefyd yn gallu prynu cymhorthion cyfathrebu electronig yn annibynnol oddi wrth gwmnïau preifat, pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Bydd y swyddogion yn ystyried darparu cymhorthion cyfathrebu i gleifion strôc ar draws Cymru o fewn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn, sy'n cynnwys safon benodol ar gyfer strôc. Caiff cynigion eu gwneud i helpu i sicrhau bod cyfarpar cyfathrebu yn cael ei ddarparu mewn modd cyson a theg sy'n diwallu anghenion y rhai sydd wedi cael strôc sydd â dysffasia.

### Ysbyty Glowyr Ardal Caerffili

**Michael German:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar y sefyllfa bresennol o ran darparu cyfleuster i gymryd lle Ysbyty Glowyr Ardal Caerffili? (WAQ28596)

*Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro a roddwyd ar 10 Hydref 2003.*

**Jane Hutt:** Bu Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent yn gweithio ar ymdrin yn strategol â darparu gwasanaethau ar draws yr ardal a wasanaethir ganddi. Wrth wneud hynny, rhaid iddi ystyried y polisïau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi yn eu datblygu yng nghyswllt rhwydweithiau a llwybrau clinigol a'r ffordd gydgysylltiedig o weithio rhwng y gwasanaethau amrywiol y mae'r gymuned yn dibynnu arnynt. Oherwydd hyn, ni ellir ystyried yr ysbyty newydd yn lle Ysbyty Glowyr Ardal Caerffili fel prosiect ar ei ben ei hun; rhaid ei roi yng nghyd-destun seilwaith gwasanaeth iechyd Gwent a'r cyfleusterau cyfagos yn ne-ddwyrain Cymru. Rhagwelir y bydd Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent, ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol, yn cyflwyno ei hachos amlinellol strategol am ddyfodol y gwasanaethau ledled ardal Gwent i'r Cynulliad yn fuan.

### Gwario Cyllideb Cam-drin Cyffuriau ac Alcohol

**Jonathan Morgan:** Pryd y daeth y Gweinidog yn ymwybodol o bryderon ynghylch y modd y mae GIG Cymru yn gwario cyllideb cam-drin cyffuriau ac alcohol? (WAQ28979)

*Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro a roddwyd ar 21 Hydref 2003.*

**Jane Hutt:** Tan 1 Ebrill 2003, yr awdurdodau iechyd oedd yn gyfrifol am y cyllidebau cyffuriau ac alcohol yn y GIG. Yn ystod y 12 mis cyn diddymu'r awdurdodau iechyd, cafodd eu cyllidebau eu dadgyfuno, er mwyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru. O ganlyniad i'r broses honno, gwnaed penderfyniad i glustnodi arian cam-drin cyffuriau ac alcohol o fewn y GIG, fel rhan o ymgais ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella gwasanaethau yn y maes hwn.

### Tîm Gweithredu Prosiect y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw'r meddyg teulu ar dîm gweithredu prosiect y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol wedi ymddeol neu'n dal i ymarfer? (WAQ28980)

*Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro a roddwyd ar 21 Hydref 2003.*

**Jane Hutt:** Mae'r tîm gweithredu prosiect yn cynnwys naw is-grŵp sy'n delio â'r materion allweddol yn ymwneud â chontract newydd y gwasanaethau meddygol cyffredinol. Ar hyn o bryd, mae gennym 10 meddyg teulu yn aelodau o'r is-grwpiau. Mae meddygon teulu eraill yn gweithredu fel aseswyr sicrhau ansawdd y prosiect. O'r 10 aelod, maent i gyd ond un yn ymarfer ar hyn o bryd. Yr wyf wedi cytuno'r wythnos hon i ad-drefnu cyfarfodydd y bwrdd prosiect fel bod modd i Bwyllgor yr Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru) gymryd rhan tra'n dal i osgoi unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau. Fel a ddywedais yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Hydref, bûm yn awyddus i sicrhau bod gennym gynrychiolaeth ddigonol o blith y meddygon teulu ar ein bwrdd gweithredu. Yn amlwg, mae angen inni sicrhau nad ydynt yn

ymddangos ar y naill ochr a'r llall i'r bwrdd trafod telerau nac yn ymwneud â chontractau lle mae ganddynt fuddiant ariannol. Mae gan y meddygon teulu gynrychiolaeth gref yn barod ar nifer o is-grwpiau ac rydym wedi dod i gytundeb erbyn hyn gyda Chymdeithas Feddygol Prydain ynglŷn â sut i'w cynnwys yn nhrafodaethau'r bwrdd mewn ffordd nad yw'n creu gwrthdaro buddiannau.

### Cleifion a fu'n Aros mwy na Chwe Mis cyn Cael Angiograffi

**Lynne Neagle:** Faint o gleifion, fesul ymddiriedolaeth, a fu'n aros mwy na chwe mis cyn cael angiograffi yn ystod 1999, 2000, 2001, 2002 ac eleni? (WAQ29091)

**Jane Hutt:** Dim ond o fis Awst 2002 y mae'r wybodaeth hon ar gael ac mae wedi'i nodi yn y tabl isod.

| **Enw'r Ymddiriedolaeth GIG** | **31/08-02** | **31/08-03** |
|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 110 | 2 |
| Caerdydd a'r Fro | 87 | 0 |
| Gofal Iechyd Gwent | 100 | 0 |
| Abertawe | 265 | 0 |
| Ymddiriedolaethau yn Lloegr | 20 | 0 |
| **Cyfanswm** | **582** | **2** |

O'r ddau glaf yn Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg, gofynnodd un claf am gael ei dynnu oddi ar y rhestr aros ac yr oedd claf arall wedi methu cadw ei apwyntiad cyn hynny.

### Cleifion a fu'n Aros mwy na 18 Mis cyn cael Triniaeth Ddewisol

**Lynne Neagle:** Faint o gleifion, fesul ymddiriedolaeth ac yn ôl arbenigedd, a fu'n aros mwy na 18 mis cyn cael triniaeth ddewisol yn ystod 1999, 2000, 2001 a 2002 ac eleni? (WAQ29092)

**Jane Hutt:** Mae'r data hwn yn cael ei gyhoeddi ac mae ar gael ar
http://www.statswales.wales.gov.uk/eng/ReportFolders/Rfview/explorerp.asp.

### Aros ar Drolïau

**Lynne Neagle:** Faint o bobl, fesul ymddiriedolaeth, a fu'n aros ar drolïau am fwy na deuddeg awr yn ystod 2000, 2001, 2002, 2002 a'r flwyddyn gyfredol? (WAQ29093)

**Jane Hutt:** Mae'r data am aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys wedi cael ei gasglu, drwy Sitreps (system adrodd newydd a sefydlwyd yn 2000), er mis Hydref 2001. Dengys y data isod gyfanswm y cleifion a fu'n disgwyl am fwy na 12 awr (o'r adeg y cyraeddasant yr adran ddamweiniau ac achosion brys) i gael eu derbyn i wely ysbyty, gan gymharu dau gyfnod o 12 mis.

| **Aros 12 awr ar droli** | **Hydref 2001-Medi 2002** | **Hydref 2002-Medi 2003** |
|---|---:|---:|
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 1,287 | 3,352 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 255 | 593 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 0 | 87 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 0 | 37 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 37 | 135 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a'r Canolbarth | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 38 | 585 |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 0 | 13 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru | 0 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru | 0 | 0 |

Mae'n bwysig ystyried y ffigurau hyn yng nghyd-destun y niferoedd sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru, sef cyfanswm o 800,000 o gleifion y flwyddyn. Mae hyn yn golygu y bydd mwy nag un ym mhob pedwar o boblogaeth Cymru yn ymweld ag adran ddamweiniau ac achosion brys mewn blwyddyn. Caiff mwyafrif helaeth y cleifion hyn eu gweld, eu trin a'u rhyddhau o'r adran ddamweiniau ac achosion brys o fewn pedair awr.

Mae'r data a ddangosir uchod yn cynnwys cleifion sy'n mynd i unedau asesu meddygol a llawfeddygol, lle mae'r rhain wedi'u cydleoli gyda'r adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae'r unedau hyn yn cael eu hystyried yn gyffredinol yn arfer da gan fod y cleifion yn gallu cael ystod lawn o brofion diagnostig ac yn cael eu monitro'n fanwl gan glinigwyr ar unwaith. Mae gan bob uned asesu brotocol gwahanol o ran hyd yr arhosiad ac, felly, efallai y bydd llawer o'r cleifion sydd wedi'u cynnwys uchod yn disgwyl am fwy na 12 awr am resymau clinigol, tra gwneir profion ac yr arsylwir ar y claf. Unwaith y caiff y profion eu cwblhau, mae'n aml yn bosibl i gleifion ddychwelyd adref, lle byddent cyn hynny wedi cael eu derbyn i ward. Er enghraifft, mae Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd yn rhyddhau 28 y cant o'r cleifion sy'n mynd i'r uned asesu feddygol tra bod Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant, yn cyrraedd cyfradd o 30 y cant.

### Apwyntiadau Cleifion Mewnol ac Allanol

**Lynne Neagle:** Ym mha Ymddiriedolaethau y cytunwyd ar eithriadau â'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â chyrraedd y targed o 18 mis ar gyfer yr amser mae'n rhaid i gleifion mewnol ac allanol ei aros cyn cael triniaethau ac apwyntiadau? (WAQ29094)

**Jane Hutt:** Targed y Cynulliad yw na ddylai neb aros mwy na 18 mis am driniaeth fel claf mewnol/achos dydd nac apwyntiad fel claf allanol. Fodd bynnag, mae'r galw am wasanaethau wedi golygu bod yn rhaid cytuno ar eithriadau eleni yng nghyswllt nifer fach o arbenigeddau yn yr ymddiriedolaethau canlynol:

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro,<br>Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | cleifion mewnol a chleifion allanol |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent,<br>Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda<br>Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | cleifion allanol |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a'r Canolbarth<br>Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | cleifion mewnol |

### Gweld Aelod o Dîm Gofal Sylfaenol o fewn 24 awr

**Lynne Neagle:** Faint o gleifion, fesul ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd Lleol, a gafodd weld aelod o dîm gofal sylfaenol o fewn 24 awr yn ystod 1999, 2000, 2001, 2002 ac eleni? (WAQ29095)

**Jane Hutt:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog. Bydd yn rhaid i bractisiau a byrddau iechyd lleol ystyried cofnodi'r data hwn yn y dyfodol yng nghyd-destun gwella'r gwasanaethau, a bydd hyn yn cynnwys targedau mynediad.

### Apwyntiad Cyntaf â Meddyg Ymgynghorol fel Claf Allanol

**Lynne Neagle:** Faint o gleifion, fesul ymddiriedolaeth, a fu'n aros mwy na deunaw mis cyn cael eu hapwyntiad cyntaf â meddyg ymgynghorol fel claf allanol yn ystod 1999, 2000, 2001, 2002 ac eleni? (WAQ29096)

**Jane Hutt:** Mae'r data hwn yn cael ei gyhoeddi ac mae ar gael yn
http://www.statswales.wales.gov.uk/eng/ReportFolders/Rfview/explorerp.asp.

## Y Targed Gwelliant Parhaus

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi pa arbenigeddau, fesul ymddiriedolaeth, sydd ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed gwelliant parhaus o gael gostyngiad pellach o dri mis mewn amseroedd aros cleifion mewnol ac allanol erbyn Mawrth 2004? (WAQ29097)

**Jane Hutt:** Mae'r targed gwelliant parhaus yn cyfeirio at yr amser aros sydd i'w ddiwallu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a bu'n destun trafod o fewn y cymunedau iechyd. Caiff y targedau hyn eu monitro gan y swyddfeydd rhanbarthol gydol y flwyddyn.

## Galwadau Categori A

**Lynne Neagle:** Pa ganran o'r galwadau Categori A, fesul rhanbarth, y'u hatebwyd o fewn wyth munud yn ystod pob mis yn 2003? (WAQ29098)

**Jane Hutt:** Nid yw'r wybodaeth a geisir yn cael ei chadw ar sail fisol. Ar gyfer y chwarter rhwng Ionawr a Mawrth 2003, dyma'r canrannau, fesul awdurdod iechyd:

| | |
|---|---|
| Bro Taf | 51 y cant |
| Dyfed Powys | 51.1 y cant |
| Gwent | 45 y cant |
| Morgannwg | 50.6 y cant |
| Gogledd Cymru | 63.6 y cant |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | **52.1 y cant** |

Ar gyfer y chwarter rhwng Ebrill a Mehefin 2003, dyma'r canrannau, fesul rhanbarth:

| | |
|---|---|
| Canolbarth a gorllewin Cymru | 47.7 y cant |
| Gogledd Cymru | 63.3 y cant |
| De-ddwyrain Cymru | 51 y cant |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | **52.4 y cant** |

## Aros mewn Unedau Damweiniau ac Achosion Brys

**Lynne Neagle:**; Pa ganran o gleifion, fesul ymddiriedolaeth, a dreuliodd lai na phedair awr yn yr uned ddamweiniau ac achosion brys, o'r adeg iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu'u rhyddhau yn ystod 1999, 2000, 2001 a 2002 a'r flwyddyn gyfredol? (WAQ29099)

**Jane Hutt:** Mae'r data hwn wedi cael ei gasglu drwy Sitreps (system adrodd newydd a sefydlwyd yn 2000) ers mis Medi 2003 ac nid yw'n bosibl felly gwneud cymariaethau dros y blynyddoedd hyn. Dangosir perfformiad yr ymddiriedolaethau ar hyn o bryd isod (yr wythnos yn gorffen 29 Medi 2003):

**Damweiniau ac achosion brys: canran y cleifion sy'n treulio llai na phedair awr o'r adeg iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu'u rhyddhau (Sitreps, yr wythnos yn gorffen 29 Medi)**

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 83 y cant |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 90 y cant |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 91 y cant |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda | 99 y cant |
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 95 y cant |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 95 y cant |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a'r Canolbarth | 98 y cant |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | 99 y cant |

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 75 y cant |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 86 y cant |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru | 96 y cant |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru | 91 y cant |

Mae'n bwysig ystyried y ffigurau hyn yng nghyd-destun y niferoedd sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru, sef cyfanswm o 800,000 o gleifion y flwyddyn. Mae hyn yn golygu y bydd mwy nag un ym mhob pedwar o boblogaeth Cymru yn ymweld ag adran ddamweiniau ac achosion brys mewn blwyddyn. Caiff mwyafrif helaeth y cleifion hyn eu gweld, eu trin a'u rhyddhau o'r adran ddamweiniau ac achosion brys o fewn pedair awr.

Mae hanner holl ymddiriedolaethau Cymru yn cyrraedd y targed hwn ar hyn o bryd ac mae gwaith yn mynd rhagddo ym mhob sefydliad i wella'r sefyllfa ymhellach. Mae cynlluniau arloesol yn cael eu mabwysiadu i roi trefn 'ffrydio' ar waith mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, lle bydd cleifion yn cael eu cyfeirio i wahanol fannau yn ôl eu hanghenion. Caiff y mannau hyn eu staffio'n unigol ac maent yn dal i weithredu pa bwysau bynnag sydd ar y mannau eraill, gan sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal cywir mewn modd amserol yn y lleoliad mwyaf priodol.

**Aros mewn Uned Damweiniau ac Argyfwng**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau ym mhob ymddiriedolaeth i gyrraedd y targed o sicrhau nad yw'r amseroedd aros o wyth awr a phedair awr yn gwaethygu mewn unedau damweiniau ac argyfwng (o 2002-03) erbyn Mawrth 2004? (WAQ29100)

**Jane Hutt:** Mae'r data isod, a gasglwyd drwy Sitreps (system adrodd newydd a sefydlwyd yn 2000), yn dangos cyfanswm y cleifion a fu'n aros dros bedair ac wyth awr (o'r adeg iddynt gyrraedd yr adran ddamweiniau ac achosion brys) i gael eu derbyn i wely ysbyty, gan gymharu'r ddau gyfnod chwe mis rhwng Ebrill a Medi 2002 ac Ebrill a Medi 2003.

| | **Pedair Awr** | | **Wyth Awr** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2002** | **2003** | **2002** | **2003** |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 3,411 | 5,274 | 1,298 | 2,840 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 2,568 | 2,995 | 539 | 714 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 725 | 1,712 | 24 | 277 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda | 56 | 69 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 1,516 | 1,657 | 0 | 33 |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerfyrddin | 1,466 | 1,365 | 250 | 306 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a'r Canolbarth | 81 | 124 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | 94 | 125 | 3 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 2,349 | 3,036 | 232 | 650 |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 724 | 1,595 | 2 | 62 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru | 147 | 284 | 1 | 3 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru | 396 | 529 | 8 | 13 |

Mae'n bwysig ystyried y ffigurau hyn yng nghyd-destun y niferoedd sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru, sef cyfanswm o 800,000 o gleifion y flwyddyn. Mae hyn yn golygu y bydd mwy nag un ym mhob pedwar o boblogaeth Cymru yn ymweld ag adran ddamweiniau ac achosion brys mewn blwyddyn. Caiff mwyafrif helaeth y cleifion hyn eu gweld, eu trin a'u rhyddhau o'r adran ddamweiniau ac achosion brys o fewn pedair awr.

Mae'r data a ddangosir uchod yn cynnwys cleifion sy'n mynd i unedau asesu meddygol a llawfeddygol, lle mae'r rhain wedi'u cydleoli gyda'r adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae unedau o'r fath yn cael eu hystyried yn gyffredinol yn arfer da gan fod y cleifion yn gallu cael ystod lawn o brofion diagnostig ac yn cael eu monitro'n fanwl gan glinigwyr. Bydd gan unedau asesu brotocolau lleol o ran

hyd yr arhosiad ac, felly, efallai y bydd llawer o'r cleifion sydd wedi'u cynnwys yn y data uchod yn disgwyl am fwy na 12 awr am resymau clinigol, tra gwneir profion ac yr arsylwir ar y claf. Unwaith y mae'r profion wedi cael eu cwblhau, mae'n aml yn bosibl i gleifion ddychwelyd adref, lle byddent cyn hynny wedi cael eu derbyn i ward. Er enghraifft, mae Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd yn rhyddhau 28 y cant o'r cleifion sy'n mynd i'r uned asesu feddygol tra bod Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant, yn cyrraedd cyfradd o 30 y cant.

Mae'r tîm Arloesi mewn Gofal yn gweithio gydag adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru i weithredu modelau gofal sy'n golygu bod cleifion yn cael y gofal mwyaf priodol mewn modd amserol a hynny yn y lleoliad mwyaf priodol. Mae'r model hwn o 'ffrydio' cleifion i fannau priodol yn arwain at weithio mwy effeithlon, amseroedd aros byrrach a gwell gofal i'r cleifion. Fodd bynnag, mae'n cymryd amser i gynlluniau o'r fath wneud gwahaniaeth.

### Triniaeth Sylfaenol Frys (Canser)

**Lynne Neagle:** Faint o gleifion yr amheuir bod canser arnynt, fesul ymddiriedolaeth, a fu'n aros mwy na'r deng niwrnod gwaith safonol cyn cael eu hatgyfeirio am driniaeth sylfaenol frys yn ystod 1999, 2000, 2001, 2002 ac eleni? (WAQ29101)

**Jane Hutt:** Mae'n ofynnol yn ôl y safon canser i Gymru sy'n ymdrin ag amseroedd aros i gleifion gael eu cyfeirio ar frys gan eu meddyg teulu. Pan dderbynnir y cais cyfeirio yn yr ysbyty, rhaid i'r arbenigwr gadarnhau bod yr achos yn un brys a rhaid i'r claf gael ei weld o fewn 10 diwrnod gwaith. Mae pob ymddiriedolaeth yn monitro ei bod yn cydymffurfio â'r safon ar gyfer saith canser, gan gynnwys canser y fron, ac maent yn gweithio i wella eu perfformiad. Bydd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol yn darparu canllawiau ar gyfeirio cleifion yr amheuir bod canser arnynt yn y dyfodol agos.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i adolygu'r safonau canser ac yn y dyfodol bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar yr amseroedd aros o'r adeg y cyfeirir cleifion nes i'r driniaeth ddechrau. Mae gwybodaeth am berfformiad yr ymddiriedolaethau yn erbyn y safon ddiwygiedig hon o ran amseroedd aros yn cael sylw.

### Llawdriniaeth Cataract

**Lynne Neagle:** Faint o gleifion, fesul ymddiriedolaeth, a fu'n aros mwy na pedwar mis am lawdriniaeth cataract yn ystod 1999, 2000, 2001, 2002 a'r flwyddyn gyfredol? (WAQ29102)

**Jane Hutt:** Dim ond am y blynyddoedd isod y mae'r data ar gael ac mae wedi'i grynhoi yn y tabl.

| **Ymddiriedolaeth GIG** | **Dyddiad** | | |
|---|---|---|---|
| | **31 Awst 2001** | **31 Awst 2002** | **31 Awst 2003** |
| Cyfanswm Ymddiriedolaethau GIG y tu allan i Gymru | 5 | 11 | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 53 | 36 | 74 |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 109 | 22 | 14 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 393 | 458 | 412 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a'r Canolbarth | 54 | 53 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 4 | 0 | 16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 688 | 300 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru | 91 | 31 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 93 | 76 | 23 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru | 125 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda | 60 | 8 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys | 0 | 33 | 5 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 163 | 281 | 696 |
| **Cyfanswm Llawn** | **1,838** | **1,309** | **1,242** |

**Llawdriniaeth ar y Galon**

**Lynne Neagle:** Faint o gleifion, fesul ymddiriedolaeth, a fu'n aros mwy na 10 mis am lawdriniaeth ar y galon yn ystod 1999, 2000, 2001, 2002 a'r flwyddyn gyferdol? (WAQ29103)

**Jane Hutt:** Dim ond am y blynyddoedd isod y mae'r data ar gael:

| **Ymddiriedolaeth GIG** | **Dyddiad** | |
|---|---|---|
| | **31 Awst 02** | **31 Awst-03** |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 9 | 0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 21 | 9 |
| Cyfanswm Llawn | 30 | 9 |

**Cynigion Cyllideb Ddrafft**

**Jonathan Morgan:** O ran y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o wybodaeth am yr is-gategori 'incwm FHS', yn arbennig y meysydd penodol a gwmpesir ganddo, o dan y prif gategori 'addysg a hyfforddiant'? (WAQ29104)

**Jane Hutt:** Nid oes llinell wariant incwm FHS yn y gyllideb o fewn yr is-grŵp gwariant addysg a hyfforddiant.

**Cynigion Cyllideb Ddrafft**

**Jonathan Morgan:** O ran y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o wybodaeth am yr is-gategori 'ymchwil a datblygu', yn arbennig y meysydd penodol a gwmpesir ganddo, o dan y prif gategori 'gwasanaethau iechyd teuluol'? (WAQ29105)

**Jane Hutt:** Nid oes llinell wariant ymchwil a datblygu yn y gyllideb o fewn yr is-grŵp gwariant gwasanaethau iechyd teuluol.

**Cynigion Cyllideb Ddrafft**

**Jonathan Morgan:** O ran y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o wybodaeth am yr is-gategori 'iechyd y cyhoedd', yn arbennig y meysydd penodol a gwmpesir ganddo, o dan y prif gategori 'gwasanaethau iechyd teuluol'? (WAQ29106)

**Jane Hutt:** Nid oes llinell wariant iechyd y cyhoedd yn y gyllideb o fewn yr is-grŵp gwariant gwasanaethau iechyd teuluol.

**Cynigion Cyllideb Ddrafft**

**Jonathan Morgan:** O ran y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o wybodaeth am yr is-gategori 'hybu iechyd', yn arbennig y meysydd penodol a gwmpesir ganddo, o dan y prif gategori 'gwella iechyd'? (WAQ29107)

**Jane Hutt:** Nid oes llinell wariant hybu iechyd yn y gyllideb o fewn yr is-grŵp gwariant gwella iechyd.

**Cynigion Cyllideb Ddrafft**

**Jonathan Morgan:** O ran y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o wybodaeth am yr is-gategori 'grantiau i gyrff gwirfoddol', yn arbennig y meysydd penodol a gwmpesir ganddo, o dan y prif gategori 'gwella iechyd'? (WAQ29108)

**Jane Hutt:** Nid oes llinell wariant grantiau i gyrff gwirfoddol yn y gyllideb o fewn yr is-grŵp gwariant gwella iechyd.

### Cynigion Cyllideb Ddrafft

**Jonathan Morgan:** O ran y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o wybodaeth am yr is-gategori 'taliadau i gontractwyr', yn arbennig y meysydd penodol a gwmpesir ganddo, o dan y prif gategori 'addysg a hyfforddiant'? (WAQ29109)

**Jane Hutt:** Nid oes llinell wariant taliadau i gontractwyr yn y gyllideb o fewn yr is-grŵp gwariant addysg a hyfforddiant.

### Cynigion Cyllideb Ddrafft

**Jonathan Morgan:** O ran y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o wybodaeth am yr is-gategori 'tribiwnlysoedd a phwyllgorau ymgynghori', yn arbennig y meysydd penodol a gwmpesir ganddo, o dan y prif gategori 'byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG'? (WAQ29110)

**Jane Hutt:** Nid oes llinell wariant tribiwnlysoedd a phwyllgorau ymgynghori yn y gyllideb o fewn yr is-grŵp gwariant byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG.

### Cynigion Cyllideb Ddrafft

**Jonathan Morgan:** O ran y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o wybodaeth am yr is-gategori 'addysg a hyfforddiant', yn arbennig y meysydd penodol a gwmpesir ganddo, o dan y prif gategori 'byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG'? (WAQ29111)

**Jane Hutt:** Nid oes llinell wariant addysg a hyfforddiant yn y gyllideb o fewn yr is-grŵp gwariant byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG.

### Swydd Cyfarwyddwr Moderneiddio Cyflogau

**Jonathan Morgan:** Am ba hyd y bydd y swydd cyfarwyddwr moderneiddio cyflogau yn para er mwyn gweithredu'r strategaeth 'Agenda ar gyfer Newid', i bwy fydd deiliad y swydd yn atebol a beth fydd y gost i'r trethdalwr? (WAQ29112)

**Jane Hutt:** Penodwyd y cyfarwyddwr moderneiddio cyflogau ym mis Mawrth 2003 am gyfnod o bum mlynedd. Mae deiliad y swydd yn bennaeth ar dîm bach a fydd yn arwain y gwaith o weithredu tri newid mawr i gyflogau ac amodau a thelerau cyflogaeth staff y GIG, sef yr 'Agenda ar gyfer Newid', y contract diwygiedig i ymgynghorwyr a'r contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol.

Mae pob un o'r cynlluniau hyn wedi'i fwriadu nid yn unig fel bod y GIG yn gallu recriwtio, cadw a symbylu staff yn well ond, hefyd, i helpu i sefydlu newidiadau yn y ffyrdd y cyflenwir gofal iechyd dros y pum mlynedd nesaf.

Bydd y cyfarwyddwr yn atebol i gyfarwyddwr adnoddau dynol GIG Cymru. Y gyllideb gychwynnol ar gyfer y tîm moderneiddio yw £340,000 a bydd yn gostwng, ar ôl cyfnod cychwynnol o ddwy flynedd, dros weddill y prosiect.

### Trin Ceiswyr Lloches

**Jonathan Morgan:** Faint o arian sydd wedi cael ei wario gan fyrddau iechyd lleol i dalu'r gost o drin ceiswyr lloches y mae eu ceisiadau yn aros i gael eu prosesu gan y Swyddfa Gartref? (WAQ29115)

**Jonathan Morgan:** Pryd fydd y Gweinidog yn penderfynu faint o arian a fydd yn cael ei ddyrannu i fyrddau iechyd lleol er mwyn cefnogi anghenion iechyd ceiswyr lloches? (WAQ29117)

**Jane Hutt:** Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i benderfynu ar y dyraniad i'r byrddau iechyd lleol er mwyn iddynt gynnal anghenion iechyd ceiswyr lloches yn 2003-04. Rhagwelaf y caiff penderfyniad ei wneud fis nesaf. Gwariodd pedwar bwrdd iechyd lleol £1,000,531 ym mhob un o'r ardaloedd clwstwr ym mlwyddyn 2002-03. Defnyddiwyd yr arian hwn i asesu anghenion ceiswyr lloches a chynnal eu gofal sylfaenol.

**Y Bil Cyflogau Cronnol**

**Jonathan Morgan:** Yn sgîl yr ateb a roddwyd i WAQ29020, a wnaiff y Gweinidog roi'r bil cyflogau cronnol am: a) y 359 gwas sifil a oedd yn cael eu cyflogi yn 1999, a b) y 740 gwas sifil sy'n cael eu cyflogi heddiw? (WAQ29118)

**Jane Hutt:** Yr oedd y gyllideb ar gyfer costau perthnasol i staff y Cynulliad a oedd yn cynnal fy mhortffolio yn 1999-2000 yn £14.06 miliwn. Ers i'r gyllideb honno gael ei phennu, trosglwyddwyd 438 o swyddi i'r Cynulliad mewn perthynas â swyddogaethau yr arferai cyrff allanol ymgymryd âhwy (gweler y tabl). Amcangyfrifir bod cost y rheini yn £15.95 miliwn y flwyddyn. Mae costau'r swyddogaethau hynny wedi'u cynnwys yn y gyllideb gyffredinol ar gyfer costau perthnasol i staff y swyddogaethau sy'n cynnal fy mhortffolio, oedd yn £28.69 miliwn yn 2003-04.

| **Sefydliad** | **Swyddi** |
|---|---|
| Awdurdod Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru | 68 |
| Hybu Iechyd Cymru | 67 |
| Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru | 8 |
| Uned cymorth effeithiolrwydd clinigol | 6 |
| Uned cyffuriau ac alcohol Cymru | 7 |
| Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd | 22 |
| Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru | 230 |
| Comisiwn Iechyd Cymru | 30 |
| **Cyfanswm** | **438** |

**Gwasanaethau Gofal Lliniarol (Clefyd Niwronau Motor)**

**Kirsty Williams:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sicrhau bod cyfleoedd teg i gleifion yng Nghymru sydd â chlefyd niwronau motor gael gwasanaethau gofal lliniarol? (WAQ29129)

**Jane Hutt:** Dylai pob person sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, waeth beth fo'i oed, allu cael gofal lliniarol sy'n briodol i'w anghenion clinigol, diwylliannol, cymdeithasol a seicolegol, fel y'u haseswyd.

Mae'r strategaeth gofal lliniarol 'Cyfeiriad Strategol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Lliniarol yng Nghymru', a lansiwyd gennyf ym mis Chwefror eleni, yn cydnabod y gallai fod angen gofal lliniarol ar gleifion sydd ag unrhyw glefyd cynyddol sy'n cyfyngu ar fywyd, megis y rheini sydd â chlefyd niwronau motor.

Yr wyf yn gobeithio datblygu cynllun gweithredu dros y misoedd i ddod i helpu i ddarparu manylion pellach ynglŷn â sut mae trosi'r strategaeth yn weithredu ymarferol.

## Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru

**Lisa Francis:** Yn dilyn fy nghwestiwn ysgrifenedig (WAQ27191) a gyflwynwyd ar 10 Gorffennaf, a ddywedwch wrthyf a oes gwerthusiad wedi'i gynnal ar ddod o hyd i safle parhaol ar gyfer ambiwlans awyr gogledd Cymru, ac os oes, beth oedd y canlyniad? (WAQ29130)

**Jane Hutt:** Mae'r safle yng Nghaernarfon yn cael ei werthuso ar hyn o bryd. Mae cyfarfod wedi cael ei drefnu rhwng yr ymddiriedolaeth ambiwlans a chwmni'r ambiwlans awyr ar 17 Tachwedd i drafod y gwerthusiad a chytuno ar argymhelliad o ran canolfan barhaol. Bydd yr hofrennydd yn dal i weithredu o Gaernarfon yn ystod y cyfnod hwn.

## Hospis Dewi Sant, Llandudno

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y cais a wnaed gan Hospis Dewi Sant, Llandudno a chanlyniad hyn mewn perthynas â'r £10 miliwn ychwanegol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ddyrannu i hospisau yng Nghymru? (WAQ29131)

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o arian y mae'r Llywodraeth wedi'i roi i Hospis Dewi Sant, Llandudno ar gyfer y blynyddoedd ariannol, 2002-03, 2003-04, 2004-05? (WAQ29132)

**Jane Hutt:** Ym mis Ionawr 2003 darparwyd £10 miliwn dros gyfnod o dair blynedd i hosbisau gwirfoddol sy'n darparu gofal lliniarol i bobl Cymru. Mae panel annibynnol wedi ystyried ceisiadau a seiliwyd ar arian cyfatebol, a llwyddodd 22 o hosbisau i sicrhau arian ar gyfer eu cynigion.

Sicrhawyd £250,000 o arian, ym mlwyddyn 1 (2003-04) yn unig, gan Hosbis Dewi Sant yn Llandudno, i atgyfnerthu a chynnal ei wasanaethau presennol. Ni chytunwyd ar arian ar gyfer blynyddoedd 2 a 3, fodd bynnag, am na lwyddodd y cais i fodloni'r meini prawf penodedig, sef:

- nodi pa wasanaethau ychwanegol fyddai'n cael eu hariannu; a
- chyflwyno strategaeth ar sut y byddid yn mynd i'r afael â'r diffyg cyllid ar hyn o bryd.

Mae rhai adnoddau yn cael eu cadw'n ôl ac mae'r hosbis yn cael ei annog i ailgyflwyno cais diwygiedig er mwyn ystyried y pwyntiau hyn. Mae trafodaethau o blaid ailgyflwyno'r cais yn parhau gyda'r rhanddeiliaid allweddol a swyddogion y Cynulliad.

## Ysbyty Treffynnon

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog roi'r manylion diweddaraf ynghylch hynt y cynlluniau a'r amserlen ar gyfer Ysbyty Treffynnon? (WAQ29133)

**Jane Hutt:** Gallaf ddweud wrthych fod Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru wedi cyflwyno'r achos busnes amlinellol am y gwaith arfaethedig o ddatblygu ysbyty cymunedol newydd yn ardal Treffynnon. Cafodd y ddogfen hon ei hystyried gan fy swyddogion a chyflwynwyd sylwadau i'r ymddiriedolaeth. Mae'r ymddiriedolaeth yn ei thro wedi ymateb i'r sylwadau hyn ac mae ei hymateb yn cael ei ystyried gan fy swyddogion ar hyn o bryd.

## Uned y Galon yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y camau a gymerwyd tuag at gael cyllid i sefydlu uned y galon yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth? (WAQ29142)

**Jane Hutt:** Mae'r sylwadau terfynol am achos busnes amlinellol yr ymddiriedolaeth o blaid uned gofal y galon yn Ysbyty Bronglais yn cael eu casglu ynghyd ar hyn o bryd. Caiff barn ffurfiol am yr achos busnes ei hanfon ar yr ymddiriedolaeth yn fuan.

Yr ail ran mewn proses dri cham yw’r achos busnes amlinellol. Unwaith y bydd wedi’i gwblhau, bydd angen i’r ymddiriedolaeth, gan weithio drwy rwydwaith y galon, lunio’r achos busnes llawn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnig £932,500 i ddatblygu uned gofal y galon cyhyd â bo’r achos busnes yn cael ei gymeradwyo.